# LEWIS, PIERCE (1664 - 1699), clerigwr, a 'diwygiwr' Beibl 1690

**Enw:** Pierce Lewis
**Dyddiad geni:** 1664
**Dyddiad marw:** 1699
**Rhiant:** Elizabeth Lewis (née Lloyd)
**Rhiant:** Pierce Lewis
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr, a 'diwygiwr' Beibl 1690
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 11 Ebrill 1664, mab i Pierce Lewis o Blas Llanfihangel (Tre'r Beirdd), cofrestrydd esgobaeth Bangor, a'i wraig Elizabeth Lloyd o'r Henblas yn Llangristiolus. Aeth i Goleg Iesu yn Rhydychen yn 1681, a graddiodd yn 1684; ymddengys iddo aros yn Rhydychen hyd 1690, ac mai yno y golygodd yr argraffiad o'r *Beibl* a gysylltir yn gyffredin â'i gâr William Lloyd, esgob Llanelwy - llysenwid Lewis yn Rhydychen yn ' Welsh Rabbi.' Yn 1690 cafodd fywoliaeth Llanfachraeth ym Môn; yn 1693 ficeriaeth Bangor; ac yn 1698 reithoraeth Llanfairfechan. Bu farw yn Rhuthyn ym mis Mai 1699. Ni chanmolir ei argraffiad o'r *Beibl*.

## Awdur


**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)


## Ffynonellau


J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 89

J. E. Griffith, *Trafodion Cymdeithas Hynafiaethwyr a Naturiaethwyr Môn*, 1931, 124

W. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry*, 248

Hugh Owen (gol.), *Additional Letters of the Morrises of Anglesey (1735-86)* (London 1947-9), t. 742


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q6318834


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu